# Adroddiad Terfynol

# Prosiect Archif Llenyddiaeth Cymru
# *The Welsh Literature Archive Project*




## 22 Medi 2010


Ifor ap Dafydd a Nia Mai Daniel

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU

E-bost: ifor.ap.dafydd@llgc.org.uk Ffon: 01970 632543
nia.daniel@llgc.org.uk 01970 632878

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **1. Crynodeb ac Argymhellion** | **2** |
| **2. Cefndir y Prosiect** | **9** |
| **3. Rheoli'r Prosiect** | **9** |
| **4. Holiadur Llenydda a Chyfrifiadura** | **10** |
| **5. Cyfweliadau gydag awduron** | **11** |
| **6. Hyrwyddo a Chodi Ymwybyddiaeth** | **12** |
| **7. Derbyniadau** | **16** |
| **8. Profi RODA** | **17** |
| **9. Cyd-weithio Proffesiynol** | **18** |
| **10. Gweithgaredd Mewnol** | **19** |
| **11. Prosiectau Allanol** | **20** |

## 1 Crynodeb ac Argymhellion

Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb o weithgarwch Prosiect Archif Llenyddiaeth Cymru, a'r gwersi a ddysgwyd, ynghyd â chasgliadau ac argymhellion ar gyfer gweithredu a chamau nesaf.

### Bwriad y Prosiect

Bwriadwyd *Prosiect Archif Llenyddiaeth Cymru* fel astudiaeth achos o ddyfodol archifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a chrynhoir bwriadau'r prosiect fel a ganlyn

1. codi proffil archifau llenyddol a hybu defnydd o archifau llenyddol
2. cydweithio â sampl o lenorion amlwg Cymru (Cymraeg a Saesneg eu hiaith)
3. hyrwyddo ymwybyddiaeth a thrafodaeth ynglŷn â chadwedigaeth ddigidol
4. cynllunio i dderbyn a diogelu archifau llenyddol digidol

Cyflawnwyd y pedwar bwriad hwn fel y gwelir isod.

### 1.1 Codi proffil archifau llenyddol a hybu defnydd o archifau llenyddol

Dyma brif lwyddiant y prosiect. Dengys y gweithgarwch a nodir yn Adran 6 y gwaith hyrwyddo a wnaethpwyd trwy daflenni a gwefan a nifer fawr o gyflwyniadau. Cafwyd cryn dipyn o sylw yn y Wasg a'r cyfryngau, gan gynnwys cyfrannu erthyglau at gylchgronau dylanwadol.

Gwnaethpwyd ymdrech i bontio at waith adrannau academaidd perthnasol prifysgolion yng Nghymru, a gobeithio bydd hyn yn arwain at fwy o ddefnydd o'r casgliadau yn y dyfodol.

Bu'r prosiect yn fodd adeiladol o godi proffil casgliadau'r Llyfrgell yn gyffredinol, a dangos bod y Llyfrgell yn gwneud gwaith perthnasol ac arloesol.

### 1.2 Cydweithio â sampl o lenorion amlwg Cymru (Cymraeg a Saesneg eu hiaith)

O ran cydweithio â sampl o lenorion amlwg Cymru (Cymraeg a Saesneg eu hiaith) bu hyn yn dra llwyddiannus. Adeiladwyd perthynas gyda nifer o awduron unigol yng Nghymru a bu cydweithio effeithiol gyda sefydliadau llenyddol megis yr Academi. Cafwyd presenoldeb mewn nifer o ddigwyddiadau llenyddol a diwylliannol.

Cafwyd ymateb da i'r holiadur a'r cyfweliadau a llwyddwyd i gasglu data defnyddiol fydd yn ein cynorthwyo i gynllunio ar gyfer derbyn archifau electronig yn y dyfodol. Defnyddiwyd y daflen a'r wefan yn helaeth er mwyn cynnig gwybodaeth a chyngor. Gweler Adran 6 ar hyrwyddo.

Arweiniodd y prosiect at hau hadau ar gyfer nifer o dderbyniadau yn y dyfodol, ac at drafodaeth fuddiol am y math o archifau y byddwn yn debygol o orfod delio gyda hwy . Gweler Adran 7 ar dderbyniadau.

Hybrid fydd y rhan fwyaf o archifau a gynigir i LlGC yn y dyfodol. Bydd ychwanegiadau at gasgliadau archifol cyfredol yn ddigidol. O ran gofynion cadwraeth ddigidol, ni fydd archifau'r mwyafrif llethol o lenorion yn gofyn ymwneud a fformatau dieithr, ond mae gwaith i'w wneud cyn y medrwn ddiogelu e-byst a rhoi mynediad iddynt.

### 1.3 Hyrwyddo ymwybyddiaeth a thrafodaeth ynglŷn â chadwedigaeth ddigidol

Bu prosiect Archif Llenyddiaeth Cymru yn llwyddiannus iawn yn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â chadwraeth ddigidol

- yn fewnol ymysg staff y Llyfrgell,
- ar y cyd gyda sefydliadau eraill,
- ac ymysg y gymuned o awduron yng Nghymru yn unigolion, sefydliadau a chyhoeddwyr.

Cafwyd cynrychiolaeth o nifer o adrannau gwahanol ar draws y Llyfrgell ar y pwyllgor. Gweler Adran 2 am gefndir y prosiect ac Adran 3 am Rheoli'r prosiect.
Gweler Adran 10 ar weithgaredd mewnol sy'n gosod gwaith y prosiect o fewn cyd-destun y Llyfrgell a'i strategaethau.
Gweler Adran 9 ar gydweithio proffesiynol sy'n dangos cymaint fu LLGC yn rhan o'r datblygiadau yn y maes yn ystod y cyfnod hwn.
Gweler hefyd Adran 11 ar brosiectau allanol sy'n tynnu sylw at y datblygiadau a oedd yn gefndir i'n gwaith.

### 1. 4 Cynllunio i dderbyn a diogelu archifau llenyddol digidol

Nid yw'r Llyfrgell yn Gadwrfa Ddigidol Ddiogel (TDR), ac felly gellid dweud nad ydym mewn sefyllfa o hyd i dderbyn ffeiliau electronig sydd i'w diogelu am byth. Fodd bynnag, mae'r Llyfrgell yn gynyddol wedi gorfod ymateb i sefyllfaoedd lle mae ffeiliau electronig wedi cyrraedd y Llyfrgell (e.e. archif amlgyfrwng Cliff McLucas).

Mae'r dyddiau lle mae trefniant o'r fath yn dderbyniol wedi dod i ben. Ni allwn bellach ofyn am ddeunydd papur yn unig, neu gopi caled o e-byst. Mae'r llifddor o archifau electronig llenyddol, gwleidyddol a chorfforaethol ar fin agor. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi gofyn i'r Llyfrgell dderbyn eu ffeiliau electronig dros ddwy flynedd yn ôl, ond mae'r Llyfrgell wedi gorfod gofyn iddynt aros cyn eu cyflwyno. Mae un archif lenyddol benodol wedi cael ei chynnig i ni, yn ogystal ag un archif wleidyddol. Bydd angen gweithredu ynglŷn â'r rhain yn ystod y misoedd nesaf

Yn ystod y prosiect gwnaethpwyd camau breision tuag at <u>gynllunio</u> i dderbyn deunydd, a byddai'r ochr yma o'r gwaith wedi medru cael ei symud ymlaen tipyn gyda mwy o gymorth technegol.

Wrth adeiladau at y wybodaeth a gasglwyd yn yr holiaduron a'r cyfweliadau aethpwyd ati i chwilio am ddatrysiad technegol, ac fe wnaethpwyd cryn waith profi ar system RODA, fel yr eglurir yn Adran 8. Roedd y gwaith hwn yn ychwanegol at dargedau gwreiddiol y prosiect ond yn werthfawr iawn ar gyfer y dyfodol.



## 1.5 Camau Nesaf

### 1.5.1 Sefyllfa brys

Mae archif Cyngor y Celfyddydau, ac eraill i ddod i mewn yn ystod y misoedd nesaf. Mae angen cydlynu'r broses o dderbyn yr archifau yma i mewn i'r Llyfrgell. Mae angen delio ag archifau penodol, , fel ‘prawf real’ o’r broses. Mae trosglwyddo swm mawr o ddata ar-lein dal yn broblemus.

### 1.5.2 Llif gwaith

Mae angen sicrhau llif gwaith effeithiol ar draws nifer o isadrannau er mwyn casglu, catalogio a storio'r archifau electronig. Golyga hyn gydlynu gwaith isadrannau derbyn / systemau, archifau, ac TGCh. Mae angen trefnu pwy sydd yn gyfrifol am gasglu'r deunydd a sut; pwy sy'n trosglwyddo'r deunydd i'r archif electronig; pwy sy'n medru creu mynediad at y ffeiliau; sut mae cysylltu'r cofnodion ar Virtua ayb. Bydd angen creu dogfennaeth ar gyfer y prosesau yma. Bydd angen sicrhau fod y ffeiliau yn ddilys a dibynadwy, a bod copïau dirprwyol ar gael am byth.

### 1.5.3 Prosesau newydd

Mae Michael Pearson wrthi yn datblygu datrysiad dros dro ar gyfer casglu a derbyn archifau electronig corfforaethol. Rhan o'r gwaith hwn yw dogfennu'r hyn sy'n cael ei drosglwyddo. Mae'n bosibl mai dull 'dros dro' fydd hwn nes i ni benderfynu defnyddio RODA neu system gyffelyb.

### 1.5.4 Hyfforddi a chanllawiau

Yn y dyfodol agos bydd gofyn i archifyddion fedru delio ac archifau electronig a'u catalogio. Mae angen paratoi canllawiau ar gyfer y prosesau sydd angen eu dilyn, ac yna dechrau rhaeadru hyfforddiant o fewn y Llyfrgell ynglŷn â materion yn ymwneud ag archifau electronig. Bydd angen canllawiau ar gatalogio archifau hybrid, catalogio e-bost, dileu neu chwynnu archifau electronig, gosod eithriad Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar ffeiliau electronig ayb. Bydd angen catalogio archifau hybrid yn MARC ac ISAD(G) yn Virtua.

### 1.5.5 Gwerthuso Opsiynau Eraill

Mae angen parhau i adnabod a gwerthuso opsiynau eraill.

### 1.5.6 Arweiniad i eraill

Mae angen i ni fod mewn sefyllfa i gynnig arweiniad i eraill yn y maes. Mae archifwyr yng Nghymru, a grŵp cadwedigaeth ddigidol CACC yn edrych ar gydweithredu â’r Llyfrgell yn y maes hwn.

**1.6 Gwersi a Ddysgwyd**

**1.6.1** Hybrid neu electronig yn unig fydd yr archifau a gynigir i LlGC o hyn ymlaen, gydag ambell eithriad penodol neu arbennig megis deunydd hanesyddol.

**1.6.2** Bydd ychwanegiadau at gasgliadau archifol cyfredol yn ddigidol ar y mwyaf, heblaw am rai eithriadau e.e. sefydliadau megis Capeli.

**1.6.3** O ran gofynion cadwraeth ddigidol, ni fydd archifau'r mwyafrif llethol o lenorion yn gofyn ymwneud â fformatau dieithr.

**1.6.4** Nid oes datrysiad cyfredol hawdd ar gyfer trosglwyddo swm mawr o ddata ar-lein.

**1.6.5** Angen sicrhau ein bod yn medru casglu a diogelu e-byst - ni fydd llawer o ohebiaeth na sydd ar e-bost o hyn ymlaen.

**1.6.6** Nid oes ateb un system i ofynion derbyn, cadwraeth, catalog, a mynediad. Modiwlaidd fydd datrysiad derbyn a phrosesu deunydd electronig mwy na thebyg. Rhaid gweithredu yn awr yn hytrach nag aros am un pecyn parod ar gyfer holl lif gwaith rheoli cofnodion electronig.

**1.6.7** Mynediad at ddeunydd digidol fydd disgwyliad a dymuniad defnyddwyr.

**1.6.8** Ystyried digido wrth dderbyn er mwyn rhoi mynediad ‘cyflawn’ i archifau hybrid ‘o bwys’ neu a fydd iddynt ‘ddefnydd uchel’ tybiedig.

**1.6.9** Adnabod, a manteisio, ar unrhyw orgyffwrdd rhwng prosesau a chynllunio cadwraethol gwrthrychau digidol a greeir gan LlGC (ee. wrth ddigido) a’r rhai a dderbynnir oddi wrth eraill (e.e. ar CD, neu drwy adnau cyfreithiol).

**1.6.10** Angen profi pecynnau asesu risg cynlluniau cadwraeth e.e. PLATO.

**1.6.11** Angen sicrhau fod y llif gwaith yn asio gyda OAIS, ac yn cyd-fynd gyda llif gwaith, systemau ac isadeiledd technolegol y Llyfrgell. Dylid cymhwyso llif gwaith sydd wedi ei nodi yn barod (e.e. yn Paradigm neu Interpares) ar gyfer gwaith y Llyfrgell.

**1.6.12** Camau dilysu a gwirio (checksum etc.) ffeiliau electronig yn hollbwysig i gadwraeth ddigidol a hygrededd gwasanaeth i ddarllenwyr.

**1.6.13** Ar ôl derbyn ffeiliau electronig rhaid eu copïo yn syth ar y gweinydd, a chreu copïau eraill ar gyfer catalogio a rhoi mynediad.

**1.6.14** Mae’n holl bwysig ymwneud â’r crëwr o flaen llaw i gynghori ar reoli cofnodion a diogelu ffeiliau, a magu perthynas dros flynyddoedd maith.

**1.6.15** Mae unigolion a chorfforaethau hysbys, a rhai yn ddigymell, yn awyddus ers blynyddoedd i gyflwyno deunydd electronig i'r Llyfrgell.

**1.6.16** Angen ystyried cwestiynau mynediad: hawlfraint creu copïau digidol, a deddfau Deddf Rhyddid Gwybodaetha'r Ddeddf Gwarchod Data.

**1.6.17** Angen ystyried y modd yr ydym yn gosod pris ar archifau electronig, yn enwedig os yw'r crëwr am gadw copïau o'r deunydd ar ôl eu gwerthu. Angen ystyried prynu hawliau yn hytrach na chopi.

**1.6.18** Mae angen trafodaeth bellach ar TDR ("Trusted Digital Repository") i Gymru, ac astudiaeth dichonoldeb.

**1.6.19** Mae angen modd o gysylltu cofnod disgrifiadol yn Virtua gyda'r ffeiliau electronig yn VITAL er mwyn gallu rhoi mynediad i'r deunydd.

## 1.7 Cyd-destun Corfforaethol

Rhaid ystyried swyddogaeth y Llyfrgell mewn cyd-destun digidol sy'n esblygu ac arwyddocâd y newid cyd-destunol hwnnw ar y math o wybodaeth a ddelir gan y Llyfrgell yn archifau ac fel arall:

"casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a Chenedl y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg."
(Y Siarter Frenhinol (2006), paragraff 4)

"Mae data electronig a'i gynaladwyaeth parhaus yn hanfodol i gymdeithas ac economi ffyniannus. O'r lefel fwyaf personol i'r mwyaf cyffredinol, mae diogelwch tymor hir ein data yn hollbwysig i'n dyfodol fel cenedl, fel y gallwn gyflawni ein hamcanion yn effeithlon a hyderus."
(Polisi a Strategaeth Cadwedigaeth Ddigidol *Digital Preservation Policy and Strategy,* 2008)

"Ymrwymiadau i fedru casglu a diogelu deunydd archifol yn unol â swyddogaeth graidd Llyfrgell Genedlaethol Cymru" .
(Gofynion statudol. Llunio'r Dyfodol)

"Gosod y sylfeini i dderbynion digidol di-brint ar draws y Llyfrgell."
(Strategaeth y Llyfrgell)

"Ymrwymiadau i fedru casglu a diogelu deunydd archifol yn unol â'r swyddogaethau craidd.
(Sicrhau anghenion y cylch gorchwyl)

Gwasanaeth i'r cyhoedd – mynediad at archifau electronig ddim ar gael os nad ydym yn medru eu diogelu.
(Sicrhau gwasanaethau i'r Cyhoedd. Cylch Gorchwyl)

"Bydd heriau lu wrth gasglu archifau mewn fformat digidol, sy'n aml yn gysylltiedig agos â'r rhai ar bapur, a bydd yn rhaid i'r Llyfrgell 'ymyrryd' yn gynnar yng ngyrfa pobl, gan gynghori ar fformatau a thechnegau, yn hytrach na disgwyl medru 'etifeddu' archif lawn."
(2020: Golwg hirdymor ar Lyfrgell Genedlaethol Cymru)

"Caiff archifau eraill eu hadneuo fwyfwy ar ffurf ddigidol. Mae profiad presennol wedi dangos pa mor bwysig yw hi fod y Llyfrgell (neu ddirprwy) yn ymyrryd â deiliwr y deunydd neu'r adneuwr ymhell cyn y dyddiad adnau: erbyn 2020 bydd systemau a phrotocolau yn fwy datblygedig, fel bod yr adneuo yn effeithiol ac yn syml. Yn y maes hwn, mae sgôp i'r Llyfrgell Genedlaethol gynnig ei gwasanaethau i sefydliadau archifol eraill yng Nghymru nad oes ganddynt efallai arbenigedd yn y maes hwn."
(2020: Golwg hirdymor ar Lyfrgell Genedlaethol Cymru)

It is anticipated that the beneficial use of personal history, of life information, will become increasingly obvious, that archival memory and function is so valuable, so essential and so worthwhile and crucial for our future that it would be neglected at very great cost. (200)
*Digital Lives - An initial synthesis*, Jeremy Leighton John *et al* (2010)

## 2 Cefndir y Prosiect

**2.1** Ysgrifennwyd papur trafod 27/10/2006 gan NMD yn trafod Yr Archif Lenyddol Gymreig, ac yn benodol diogelu a datblygu'r casgliad, a defnyddio'r archifau a hybu darllenwyr. Un o'r argymhellion oedd sefydlu Archif Lenyddol Gymreig. Gwelwyd angen i barhau i adeiladu at y casgliad yn wyneb rhai ffactorau newydd e.e. cofnodion electronig a phrifysgolion yn cystadlu am archifau llenyddol.

**2.2** Cyfarfodydd i drafod archifau llenyddol 23 Chwefror 2007, 1 Mai 2007, 11 Rhagfyr 2007. Aelodau gwreiddiol y pwyllgor oedd Gwyn Jenkins, Glyn Parry, Arwel Jones, Dafydd Ifans, Sally McInnes, Robert Lacey, Dafydd Pritchard a Nia Mai Daniel.

**2.3** Papur ar gyfer yr SMT a'r Bwrdd ar archifau llenyddol yn sôn yn arbennig am ddatblygu'r casgliad, am ddiogelu archifau llenyddol electronig, ac am hybu'r defnydd o'r archifau, NMD Gorffennaf 2007.

**2.4** Cyflwyno papur 'Archif Llenyddiaeth Cymru' i Fwrdd LLGC, NMD, 1 Tachwedd 2007.

**2.5** Datblygu cynllun ar gyfer prosiect peilot ac amserlen a chynllun gwaith ar gyfer y prosiect. Cyflwyno cais i'r citbag am swyddog datblygu am 2 flynedd a thechnegydd systemau am 4 wythnos.

## 3 Rheoli'r Prosiect

**3.1** Penodi Ifor ap Dafydd i Swydd Band 4 am 2 flynedd, 1 Gorff 2008-Mehefin 2010 fel Swyddog Datblygu Archif Lenyddol Cymru yn yr Isadran Data Archifol. Estynnwyd y contract i ddiwedd Awst 2010.

**3.2** Cychwyn prosiect peilot 'Awduron a Chyfrifiaduron' ar archifau llenyddol electronig er mwyn casglu gwybodaeth am y modd y mae archifau llenyddol electronig yn cael eu creu a'u diogelu.

**3.3** Cyfarfodydd: Bob tri mis i gychwyn ac yna bob mis. (Cynhaliwyd 17 cyfarfod rhwng 15 Gorffennaf 2008 a 27 Medi 2010).

**3.4** Estyn aelodaeth i gynnwys Pennaeth IT, cynrychiolydd o marchnata, ac yn hwyrach cynrychiolydd o systemau, gan wahodd eraill yn achlysurol. Nifer o'r sialensiau yn ymwneud â sawl isadran ar draws y Llyfrgell.

## 4 Holiadur Llenydda a Chyfrifiadura - Hydref 2008

**4.1** Yn dilyn esiampl prosiect *Digital Lives* penderfynwyd defnyddio holiadur fel modd o gasglu gwybodaeth am y sefyllfa oedd ohoni.

Rhannwyd cwestiynau’r holiadur yn 6 rhan fel a ganlyn:

•Cyffredinol: Eich cyfrifiadur
•Creu gwaith llenyddol
•Cadw a threfnu eich dogfennau
•E-bost
•Defnyddio’r We
•Ac i gloi …

**4.2** Cwblhawyd yr holiadur gan 15/20 o’r awduron y cafodd ei ddanfon atynt.

Bwriadwyd y sampl i roi trawstoriad oedran, profiad, rhyw, iaith a genre gan gydnabod fod hynny’n anodd mewn sampl cymharol fach, a bod nifer yn pontio'r ddau gategori olaf.

Ni ddychwelwyd yr holiadur gan 5/20.

Yn ddiweddarach, cwblhawyd yr holiadur yn ogystal gan 3 awdur arall.

**4.3** Roedd yr atebion yn cadarnhau fod archifau llenyddol yn hybrid, yn cael eu creu ar gyfrifiadur ac i raddau ar bapur, a bod potensial o hyd at 30 mlynedd o ddeunydd electronig ym meddiant rhai awduron. Maent bron i gyd yn defnyddio fformatiau cyfarwydd, ac ar y cyfan yn diogelu eu dogfennau. Nid ydynt serch hynny yn diogelu e-bost er yn ei ddefnyddio’n helaeth ymhob agwedd ar eu gwaith/bywyd.

## 5 Cyfweliadau gydag awduron - Gwanwyn 2009

**5.1** Yn dilyn ymchwil yr holiaduron cynhaliwyd a ffilmiwyd cyfweliadau gyda 4 awdur er mwyn cywain gwybodaeth bellach am y meysydd canlynol: sut crëir a chedwir gwaith ar bapur ac ar gyfrifiadur, hawlfraint, mynediad a chyfrinachedd, a phrosesau posib ar gyfer trosglwyddo deunyddiau digidol.

**5.2** Gwelwyd y cyfweliadau hefyd fel cyfle i brofi dogfennu mewn dull newydd (i'r Llyfrgell), a chyffredin bellach (gw. BL ac eraill) ymwneud y Llyfrgell gydag awduron/unigolion; dull sy'n ychwanegu a chyfoethogi'r record hanesyddol, ac yn ychwanegiad ynddo'i hun at yr 'archif'. I'r perwyl hwnnw cynhwyswyd cwestiynau agoriadol cyffredinol a chefndirol yn y cyfweliadau ynglŷn â dechrau ysgrifennu a phrofiadau cychwynnol a chyffredinol gyda thechnoleg, yn ogystal â'r meysydd penodol a nodwyd uchod.

**5.3** Dewiswyd 4 awdur gan fod eu holiaduron yn codi cwestiynau diddorol. Adroddwyd yn fewnol ar ganlyniadau'r cyfweliadau.

**5.4** Fel rhan o waith hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth y prosiect cynhaliwyd hefyd gyfweliadau yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala 2009 gyda'r Prifardd Ifor ap Glyn, ac yn 2010 yng Nglyn Ebwy gyda'r nofelydd Llwyd Owen.

# 6 Hyrwyddo a Chodi Ymwybyddiaeth

## 6.1 Taflenni COF ac Archifau Llenyddol Modern

Lluniwyd 2 daflen, 2,500 copi'r un ym mis Ionawr 2010:

- **Cof** – i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â chadwraeth ddigidol ymysg llenorion
- **Archifau Llenyddol Modern** - cyflwyniad cyffredinol i Archifau Llenyddol LlGC.

Dosbarthwyd y taflenni yn eang i hyrwyddo ymwybyddiaeth o waith y Llyfrgell, cyd-weithio gyda'r Academi er mwyn cyrraedd cynulleidfa darged graidd y prosiect, ac i gyd-weithwyr yn y maes mewn nifer o gynadleddau a sefydliadau hefyd.

Dosbarthwyd y taflenni ym mis Ionawr 2010 fel a ganlyn:

| ARCHIF LLENYDDIAETH CYMRU | ARCHIFAU LLENYDDOL MODERN |
|---|---|
| 100 ACau ac ASau ac MEPau | c600 Cyfeillion |
| 1200 A470 | 100 ACau ac ASau ac MEPau |
| 500 Taliesin | 300 Rhestr Arddangosfeydd |
| | 100 Rhestr y Wasg a'r Teledu |
| | 500 Rhestr Marchnata |
| **Cyfanswm 1800** | **Cyfanswm c1600** |

Ail-brintiwyd 1000 yr un o'r ddwy daflen yn Awst 2010.

## 6.2 Gwefan COF

Crëwyd tudalennau gwe newydd ar gyfer y prosiect yn Ionawr 2010: www.llgc.org.uk/cof a www.llgc.org.uk/memory

Ar y wefan ceir cyflwyniad i waith y prosiect a chrynodeb o'i amcanion, canllawiau i awduron ar sut i ddiogelu eu dogfennau, a dolenni i waith ac ymchwil perthnasol ar gadwraeth ddigidol.

Gwelir ystadegau ymweliadau â'r wefan rhwng 1 Ionawr a 31 Awst 2010 isod:

| TUDALEN | YMWELWYR UNIGOL *unique pageviews* | GOLWG AR Y TUD. *pageviews* |
|---|---|---|
| /cof /memory id=3909 | 353 | 461 |
| Canllawiau ar gyfer Awduron id=3913 | 99 | 114 |
| Dolenni Defnyddiol ac Ymchwil id=4129 | 73 | 88 |
| | | |
| /awduron/authors id=4988 | 84 | 174 |

**Argymhellion:**

- Ychwanegu cyngor mwy penodol ar ddiogelu e-byst, a gwybodaeth gryno am ewyllys digidol at y canllawiau i awduron.
- Ychwanegu rhestr F.A.Q.
- Diweddaru ac ychwanegu gwybodaeth newydd at y tudalennau ar archifau llenyddol modern: www.llgc.org.uk/awduron a www.llgc.org.uk/authors.

**6.3 Cynhadledd**

Yn y cynllun gwaith gwreiddiol nodwyd fel un o'r tasgau y dymuniad i drefnu cynhadledd yn LLGC yn ystod Pasg 2009 ar 'Y Broses Greadigol'. Wrth i'r prosiect ddatblygu cytunwyd y byddai'n well defnydd o'n hadnoddau i ganolbwyntio ar hyrwyddo mwy penodol, a chymryd rhan mewn cynadleddau a drefnwyd gan eraill er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach. **Gweler 6.5 isod.**

**6.4 Drwm ac Arddangosfeydd**

Yn ystod cyfnod y Prosiect cynhaliwyd yr arddangosfeydd canlynol yn *Byd y Llyfr*: Dylan Thomas a Kate Roberts (2008-2009), a Brenda Chamberlain a Charadog Prichard (2009-2010).

Cynhaliwyd hefyd ddigwyddiadau llenyddol yn y Drwm e.e. Fflur Dafydd (27/11/09), Malcolm Pryce (23/10/09) a Patrick Jones (4/02/10).



### 6.5 Hyrwyddo a Chodi Ymwybyddiaeth gan Ifor ap Dafydd

Un o amcanion y prosiect oedd codi ymwybyddiaeth ynglŷn â chadwraeth ddigidol, a datblygu cysylltiadau gydag awduron ac eraill. Derbyniwyd gwahoddiadau a chyflwynwyd papurau i amrediad o gyd-weithwyr yn y maes mewn sefydliadau eraill ym Mhrydain, ac i gynulleidfaoedd academaidd a rhai â chysylltiadau a'r byd llenyddol/cyhoeddi.

Rhoddwyd cyflwyniadau gan Ifor i'r sefydliadau/cynadleddau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | 22/09/08 | *Digital Lives Workshop* (The British Library) |
| 2 | 14/11/08 | *Reappraising Welsh Modernism Conference* (Adran Saesneg, Prifysgol Aberystwyth) |
| 3 | 24/11/08 | Adran Ysgrifennu Creadigol, Prifysgol Aberystwyth (Ymweliad gyda LlGC) |
| 4 | 29/04/09 | *Society of Archivists' Digital Preservation Roadshow* (Gloucestershire Archives) |
| 5 | 30/06/09 | *ARCW Digital Preservation Group* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru) |
| 6 | 30/06/09 | *Cynhadledd Ryngwladol Edward Lhuyd* (Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd) |
| 7 | 12/10/09 | Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe (Ymweliad gyda LlGC) |
| 8 | 3/02/10 | *Cyflwyniad Awr Ginio* (Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru) |
| 9 | 15/02/10 | *Society of Archivists' Digital Preservation Roadshow* (Archifau Morgannwg Caerdydd) |
| 10 | 27/02/10 | *Academi Conference 2010: New Narratives* (Trefdraeth) |
| 11 | 4/3/10 | *Gweithdy Digido Culturenet Cymru* (Canolfan Dylan Thomas, Abertawe) |
| 12 | 23/04/10 | *Cyfarfod Bwrdd LLGC* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru) |
| 13 | 1/05/10 | *Gŵyl y Fedwen Lyfrau* (Llanrwst) |
| 14 | 6/05/10 | *'Away Day'* Adran Saesneg, Prifysgol Aberystwyth (Llyfrgell Genedlaethol Cymru) |
| 15 | 17/05/10 | *Y Seminar Ymchwil Gymraeg* (Prifysgol Abertawe) |
| 16 | 31/05/10 a 4/06/10 | *Gŵyl y Gelli* (Culture Cymru, Y Gelli Gandryll) |
| 17 | 6/07/10 | *British Library Preservation Advisory Centre: Advocacy, Evidence, Support* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru) |
| 18 | 9/09/10 | *CILIP Rare Books and Special Collections Group Conference* (Lancaster University, *Nia Mai Daniel) |

Codwyd ymwybyddiaeth a thynnu sylw at waith y prosiect a chadwraeth ddigidol yn fwy cyffredinol drwy ymddangosiadau ar y cyfryngau yn ogystal:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | 20/10/08 | Rhaglen Nia Roberts, BBC Radio Cymru |
| 2 | 01/02/10 | Wedi 3, S4C |
| 3 | 03/02/10 | Golwg 360.com (fideo ar-lein) |
| 4 | 14/02/10 | Rhaglen Dei Tomos, BBC Radio Cymru |
| 5 | 10/06/10 | Stiwdio, BBC Radio Cymru |

Gwnaeth Ifor ac eraill hefyd ymchwil ar gyfer cyfres S4C 'Gwlad Beirdd'. Cafwyd ymweliad ar 26/02/10 ac yna ffilmio ar 14/04/10. Darlledir y gyfres yn ystod Hydref 2010, a gobeithir bydd y sylw a roddir i gasgliadau llenyddol yn fuddiol.
Gweler: http://www.s4c.co.uk/ffeithiol/c_gwladbeirdd.shtml

Cafwyd sylw ar lefel cenedlaethol a Phrydeinig mewn print hefyd.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | 01/10/09 | A470 (Academi) |
| 2 | 27/02/10 | The Western Mail |
| 3 | 18/03/10 | Golwg |
| 4 | 01/05/10 | ARC magazine: Literary Archives Special Issue |
| 5 | 15/12/10 | Taliesin |

(Gweler www.llg.org.uk/cof ar gyfer copïau pdf o'r erthyglau a gyhoeddwyd.)

Ac yng nghyhoeddiadau LlGC:

| | | |
|---|---|---|
| 1 | 24/09/08 | *Y Gen* – 'Y Gen yn Holi…' (MEWNOL) |
| 2 | 01/01/09 | *Dalen* – 'Cwrdd â'r Staff' |
| 3 | 13/07/10 | *Blog LlGC* |

Presenoldeb yn y cynadleddau canlynol yn ogystal:

| | |
|---|---|
| 22/07/08 | *Archive Fervour / Archive Further* (Prifysgol Aberystwyth) |
| 2/12/08 | *British Records Association* (The British Library) |
| 22/01/10 | *Society of Archivist's Digital Preservation Roadshow* (Drwm, LlGC) |
| 6/03/10 | *Dydd y Farn*: Cynhadledd Gymraeg yr Academi (Aberystwyth) |
| 19/05/10 | eCopyright 2010, CILIP Executive Briefing (Manceinion) |
| 9/06/10 | UKLH Working Group: Saving the Nation's Literary Heritage (The British Library) |

## 7 Derbyniadau

**7.1** O ddechreuadau'r prosiect yn 2007 dechreuwyd ystyried pa fylchau oedd yn ein casgliad o archifau llenyddol (papur neu electronig).

**7.2** Gwelwyd fod natur wahanol dogfennau digidol yn ein cymell i ystyried trafod gydag awduron iau/yn fwy cynnar yn eu gyrfa.

**7.3** Rhaid newid y modd mae'r Llyfrgell yn gweithredu er mwyn casglu ffeiliau electronig cyn iddynt ddiflannu. Mae hyn yn gofyn am weithredu'n gynnar ('early intervention') yng ngyrfa'r awduron i gynnig cyngor a chodi ymwybyddiaeth am gadwedigaeth ddigidol, a magu perthynas tymor hir.

**7.4** Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd trafodaethau cychwynnol gyda nifer o awduron am eu harchifau.

**7.5** Cyfrannodd Ifor at y broses o adolygu'r Polisi Derbyn a dogfennaeth adneuo drwy fynychu'r 'Gweithgor Adneuon'; arweiniodd sesiwn ar ddeunyddiau digidol ar 19/11/09.



## 8 Profi RODA - Haf 2009-2010

**8.1** Yn dilyn yr holiadur a'r cyfweliadau casglwyd mai ceisio delio'n uniongyrchol â throsglwyddo, derbyn a phrosesu deunyddiau digidol oedd y cam nesaf gorau. Penderfynwyd felly ar ddarn newydd o waith nad oedd yn y cynllun gwaith gwreiddiol, sef profi pecyn i ddelio gydag archifau digidol.

**8.2** Aseswyd dewisiadau - gan gynnwys GaIP a systemau eraill - gan Grŵp Vig, cyfrifiaduron ac eraill, a phenderfynwyd (Awst 2009) profi RODA: sef pecyn ar gyfer trosglwyddo a phrosesu gwrthrychau digidol wedi ei ddyfeisio (ac a gaiff ei ddefnyddio'n fewnol) gan Archifdy Portiwgal: http://roda.di.uminho.pt

Mae RODA'n galluogi'r creewr/rhoddwr i ychwanegu meta data at ei dogfennau. Perfformia RODA nifer o dasgau gwirio a dilysu ar y dogfennau a drosglwyddir yn awtomatig, gan gynhyrchu adroddiadau llawn. Mae hefyd yn cynnig rhyngwyneb sy'n caniatáu i archifydd fonitro a rheoli pob cam o'r broses. Gall RODA hefyd droi metadata'r crëwr yn ddisgrifiad catalog EAD. Gall hefyd greu metadata cadwraeth yn PREMIS, a darparu strwythur ISADG.

**8.3** Cynlluniwyd 'prawf cysyniadol' a fyddai'n caniatáu meddwl am werthuso'r broses 'o'r dechrau i'r diwedd' i adnabod anghenion a gofynion gwaith, gan arwain at brofi mewnol ac yna brofi allanol gyda 2 unigolyn a oedd eisoes ag archifau papur yn LlGC ac wedi mynegi diddordeb/parodrwydd trosglwyddo deunydd electronig

**8.4** Crynhoir amserlen profi RODA yn 2010 fel a ganlyn:

- **Ionawr**: Gosodwyd RODA wedi rhai cymhlethdodau.
- **Chwefror**: Lluniwyd 'canllawiau defnyddiwr' gan Ioan Issac-Richards.
- **Ebrill**: Cynhaliwyd profi mewnol gydag aelodau'r pwyllgor ac unigolion eraill yn LlGC.
- **Mai**: Penderfynwyd gohirio'r profi allanol oherwydd y gwaith technegol, a rhai o'r anghenion a oedd wedi codi yn ystod y gosod a'r profi mewnol.
- **Mehefin-Gorffenaf**: Gyrrwyd cwestiynau a derbyniwyd atebion gan *Keep Solutions* yn deillio o'r rhain.

**8.5** Mae camau posib nesaf gyda RODA i'w penderfynu o hyd.
Un cwestiwn craidd a saif yw integreiddio system megis RODA gyda VITAL, a Virtua, catalog LlGC. Lluniwyd adroddiad mewnol ar y profi.

## 9 Cyd-weithio Proffesiynol

**9.1** Academi - <http://www.academi.org/>
Datblygwyd perthynas LlGC gyda'r Academi, sef yr 'Asiantaeth Genedlaethol er Hyrwyddo Llenyddiaeth a Chymdeithas Llenorion Cymru', drwy fynychu eu cynhadledd flynyddol Gymraeg, derbyn gwahoddiad i roi cyflwyniad yn eu cynhadledd flynyddol Saesneg, ac i ddatblygu cysylltiadau ar-lein i ddarparu gwybodaeth i lenorion Cymru am gadwedigaeth ddigidol a diogelu eu gwaith. Dosbarthwyd taflenni gydag *A470* a *Taliesin* gan yr Academi.

**9.2** Cymdeithas yr Archifyddion *neu Archives & Records Association*
Gweler uchod am erthygl yng nghylchgrawn y gymdeithas ARC.
http://www.archives.org.uk/

**9.3** Y Llyfrgell Brydeinig – http://www.bl.uk
Mynychwyd cynhadledd *Digital Lives* yn ogystal â chyflwyno papur i weithdy'r prosiect. Cyflwynwyd papur yn ogystal i gynhadledd y *British Library Preservation Advisory Centre*. Gweler uchod.

**9.4** GLAM - http://archives.li.man.ac.uk/glam/index.html
The Group for Literary Archives and Manuscripts (GLAM).
Ymunodd Ifor â'r grŵp gan fynychu 2 gyfarfod yn ystod cyfnod mamolaeth Nia.

**9.5** Adrian Brown, Parliamentary Archives
Gwahoddwyd Adrian Brown i LlGC i drafod RODA ond gohiriwyd yr ymweliad oherwydd eira.

**9.6** Malcolm Todd Digital Advice manager, TNA
Ymwelodd Malcolm Todd â LlGC.

**9.7** Digital Preservation Coalition - http://www.dpconline.org/
Trefnwyr y *Digital Preservation Roadshows* ar y cyd gyda'r *Society of Archivists*. Ymwelodd William Killbride (Cyfarwyddwr) â'r Llyfrgell fel rhan o Roadshow Cymru, a siaradodd Ifor yn Roadshow Gloucester Archives ac Archifau Morgannwg (gweler uchod).

**9.8** Simon Wilson, Digital Archivist, Hull. Cysylltodd yn dilyn yr erthygl yng nghylchgrawn ARC, a chynhaliwyd trafodaeth ar y ffôn gydag ef a Sally McInnes a Glen Robson, gan hefyd drefnu ymweliad arfaethedig â LlGC ym mis Hydref 2010.

**9.9** Mynychwyd cynadleddau perthnasol eraill ym maes archifau llenyddol – gweler uchod.

## 10 Gweithgaredd Mewnol

**10.1** Archifo gwefannau, rhan o http://www.webarchive.org.uk/ukwa
Ar hyn o bryd archifir gwefannau nifer o lenorion (tua 10).

Yn sgil gwaith codi ymwybyddiaeth Ifor lluniwyd cysylltiadau ar gyfer archifo gwefan BBC Cymru, a www.metastwnsh.com

**10.2** CDAS - System a ddyfeisiwyd yn fewnol ar gyfer copïo cynnwys a rhoi mynediad i ddeunydd ar CDau.

**10.3** DAMS – Digital Asset Management Sytem. Trafodwyd hon gan GRAD sef Grwp Rheoli Asedau Digidol.

**10.4** Lluniwyd Polisi a Strategaeth Cadwedigaeth Ddigidol (2008: http://www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/2008_cadwddigidol.pdf) a chyhoeddwyd tudalennau ar y we ynglŷn â chadwedigaeth ddigidol: http://www.llgc.org.uk/index.php?id=3970&L=1

**10.5** Golwg Hirdymor ar Lyfrgell Genedlaethol Cymru (Mawrth, 2010: <http://www.llgc.org.uk/fileadmin/documents/pdf/Gweledigaeth>).
Papur gan y Llyfrgellydd sy'n cyfeirio at archifau electronig.

**10.6** Tasglu BARDD, sef Beirdd a'r Archif Ddigidol. Cynhaliwyd cyfarfod 7/07/08, ac adroddai hwn i GRAD.



# 11 Prosiectau cyfatebol/cysylltiol byd-eang – crynodebau a chyfeiriadau gwefan yn uniongyrchol o'r ffynhonnell (09/10)

**11.1** OAIS – Open Archival Information System
The OAIS reference model provides a framework for the understanding and increased awareness of archival concepets needed for long term digital information preservation and access.
http://nost.gsfc.nasa.gov/isoas/
Gweler hefyd y diagram, er enghraifft ar:
http://www.google.co.uk/imgres?imgurl=http://mandate.cdlr.strath.ac.uk/graphics/diagrams/OAISfunctionalentities.gif&imgrefurl=http://mandate.cdlr.strath.ac.uk/preservationoais.htm&h=372&w=724&sz=24&tbnid=BKa7AcQABkB85M:&tbnh=72&tbnw=140&prev=/images%3Fq%3Doais%2Bmodel&zoom=1&q=oais+model&usg=__i3Kx4K8bro5cbeRugtr8V_2WXfk=&sa=X&ei=t8iYTKGkHsjKjAfa_Jgi&ved=0CCkQ9QEwAw

**11.2** CAIRO (Complex *Archive* Ingest for Repository Objects)
The Cairo project was undertaken by three research libraries: the Bodleian Library, University of Oxford; the John Rylands University Library, University of Manchester; and the Wellcome Library, London. Its aims were to develop means to process born-digital archive and manuscript collections, enabling these to be submitted to a managed environment. The project sought to create an architecture that would permit the fusion of existing digital curation tools and present their combined functionality via a single user interface, designed for use by archivists and curators. JISC funded.
**http://cairo.paradigm.ac.uk/index.html**

**11.3** Paradigm
The **P**ersonal **Ar**chives **A**ccessible in **Dig**ital **M**edia (paradigm) project saw the major research libraries of the Universities of Oxford and Manchester come together to explore the issues involved in preserving digital private papers through gaining practical experience in accessioning and ingesting digital private papers into digital repositories, and processing these in line with archival and digital preservation requirements. JISC funded.
**http://www.paradigm.ac.uk/**

**11.4** futureArch
futureArch is a major project (building on Paradigm) to develop production-level services for hybrid archives at the Bodleian.
**http://futurearchives.blogspot.com/**

**11.5** Digital Lives Research Project
The Digital Lives Research Project is designed to provide a major pathfinding study of personal digital collections. The project team drawn from the British Library, University College London and University of Bristol is led by Dr Jeremy Leighton John of the British Library (the lead partner) and funded by the Arts and Humanities Research Council (AHRC).
**http://www.bl.uk/digital-lives/**
Gwybodaeth a dogfennaeth ddiweddaraf:
**http://britishlibrary.typepad.co.uk/digital_lives/**

**11.6** PLANETS
Planets, Preservation and Long-term Access through Networked Services, is a four-year project co-funded by the European Union under the Sixth Framework Programme to address core digital preservation challenges. The primary goal for Planets is to build practical services and tools to help ensure long-term access to our digital cultural and scientific assets.
**http://www.planets-project.eu/**
The Planets project ended on 31 May 2010. Planets results will be maintained and developed by a follow-on organisation called the Open Planets Foundation (OPF). OPF is a not-for-profit company, registered in the UK. To find out more about the OPF and how to join, please visit:
**www.openplanetsfoundation.org**

**11.7** GaIP
GaIP: Gloucestershire Archives' open digital curator GaIP is a proof of concept demonstration system written in perl. It provides archivists and others with the means to, 1. ingest a digital object and create the associated Archival Information Package (AIP), 2. compile metadata for the digital object which is included in the AIP, and 3. create Dissemination Information Packages from AIPs in order to provide access to the ingested digital object. GaIP operates by way of a graphical user interface.GAip is now a component of SCAT.
**<http://www.gloucestershire.gov.uk/index.cfm?articleid=94553>**

**11.8** PAIMAS
PAIMAS identifies and provides a structure for the interactions which take place between an information producer and a deposit archive. The standard covers the first stages of the ingest process defined by OAIS (ISO 14721). It identifies the phases required for transferring information, and defines objectives, actions and expected results for each phase. It provides a methodological framework for achieving the phases and forms the basis for identifying and developing standards and technologies to support their delivery.
**http://www.dcc.ac.uk/resources/standards/diffuse/show?standard_id=154**

**11.9** Prometheus
The Digital Preservation Workflow Project was set up to develop a suitable workflow system for long-term preservation, storage and access to digital collection items received on physical carriers or as discrete files. This initiative supports the Library's Process perspective, relating specifically to Strategic Objectives for developing and managing the collections, in responding to the challenge of digital resources and storing and preserving the collection.
**http://prometheus-digi.sourceforge.net/**

**11.10** Interpares
**The International Research on Permanent Authentic Records in Electronic Systems (InterPARES) 2 Project: Experiential, Interactive, Dynamic Records** is an international collaborative project whose major funders are Canada's Social Sciences and Humanities Research Council's Major Collaborative Research Initiatives (MCRI) programme, and the National Historical Publications and Records Commission and the National Science Foundation of the United States
**http://www.interpares.org/ip2/ip2_index.cfm**
Gweler hefyd InterPares3:
**http://www.interpares.org/ip3/ip3_index.cfm**

**11.11** Archivists' Toolkit
The Archivists' Toolkit™, or the AT, is the first open source archival data management system to provide broad, integrated support for the management of archives. It is intended for a wide range of archival repositories. The main goals of the AT are to support archival processing and production of access instruments, promote data standardization, promote efficiency, and lower training costs.
**http://archiviststoolkit.org/download/release/2_0.**

**11.12** Survey of Digitial Preservation in Wales.
Summary of findings by Sally McInnes & Vicky Phillips on behalf of Archives and Records Council Wales Digital Preservation Group, November 2009.